# Cynllun Gweithredu mewn Ymateb i'r Adolygiad Gwella Ansawdd
# a gynhaliwyd gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Cymru ym mis Ebrill 2022

| Ymateb i Ganlyniad ac Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Roedd y Brifysgol wrth ei bodd gyda'r Canlyniad a'r Adroddiad Technegol cadarnhaol a dderbyniwyd gan Dîm Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA, a ganfu fod gennym 'drefniadau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd, a gwella profiad y myfyriwr.' Oherwydd y pandemig, roedd hwn yn adolygiad llai o faint ac felly ni adroddwyd canlyniadau ynghylch gwella profiad dysgu myfyrwyr a dysgu ac addysgu. Roedd y ffocws ar sicrhau ansawdd a dyfarnwyd y farn uchaf bosibl i Brifysgol Aberystwyth. Croesawodd y Brifysgol y gydnabyddiaeth i ansawdd ein cynnig i fyfyrwyr, yn nhermau ein safonau academaidd a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchiad cadarnhaol iawn o'n darpariaeth drwyddi draw, gan gynnwys ein hymagwedd at ymestyn i feysydd newydd sy'n darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth, yn ein rhanbarth ni ac mewn llawer o ranbarthau eraill yn fyd-eang.<br><br>Rhyddhawyd y newyddion am ganlyniad yr adolygiad i'r cyfryngau gan PA a'r ASA mewn datganiad ar y cyd. Rhannwyd gwybodaeth yn fewnol mewn e-bost i'r holl staff ochr yn ochr â chanlyniad NSS 2022, oedd yn gosod Prifysgol Aberystwyth ar y brig ar gyfer boddhad myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr ac yn ail yn y DU ymhlith prifysgolion yn y rhifyn diweddaraf o Ganllaw Prifysgolion Da y *Times / Sunday Times*. Mae cyfarfodydd staff hefyd wedi cynnwys cyfeiriad at yr Adolygiad Gwella Ansawdd. Hysbyswyd rhanddeiliaid perthnasol hefyd gan gynnwys cyrff partner. Cyflwynwyd yr adroddiad i'n Bwrdd Academaidd ac adroddir arno hefyd i'r Senedd a'r Cyngor, ac yn ogystal cyfeirir ato yn ein hadroddiadau sicrwydd ansawdd a monitro partneriaeth i'r Cyngor a'r Senedd. | | | | | |
| **Ymateb i'r Ganmoliaeth** | | | | | |
| **Nod** | **Gweithredu** | **Nodiadau** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad targed** | **Diweddariad Medi 2023** |
| 1. Cymorth gan y Brifysgol sy'n hawdd ei gyrchu ac sydd wedi'i wreiddio i staff sy'n addysgu ac yn asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â staff a myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg, sy'n annog ymgysylltu a chyfranogi gyda'r iaith | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Adeiladu ar y gydnabyddiaeth hon wrth i ni barhau i annog staff a myfyrwyr i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith a'u haddysgu | Defnyddio lle bo'n briodol wrth gyflwyno'r strategaeth newydd ar gyfer datblygu addysgu a dysgu, ymchwil ac addysg staff a myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg | | Yr Athro Anwen Jones (Dirprwy Is-Ganghellor) gyda chyfrifoldeb dros ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg, a changen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Yn flynyddol i bob carfan | Mae hyn yn anogaeth yr ydym yn ei rhoi i bob carfan bob blwyddyn, ac rydym yn monitro'r cofrestriad ar gyfer nifer y credydau ar draws corff y myfyrwyr. |
| 2. Ymatebolrwydd y Brifysgol i anghenion cyflogadwyedd cenedlaethol a rhanbarthol drwy ddatblygu partneriaethau newydd arloesol â ffocws | | | | | |
| 2.1 Ceisio cyfleoedd pellach i weithio gyda chyrff yn lleol a ledled Cymru i gyflenwi cyrsiau sy'n bodloni anghenion cyflogaeth | Adeiladu ar yr adborth cadarnhaol hwn, a'i ddefnyddio mewn trafodaeth gyda phartneriaid posibl fel tystiolaeth o'n hanes llwyddiannus | | Athro Tim Woods (Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr), Gweithrediaeth y Brifysgol, a'r Swyddfa Partneriaethau (Cofrestrfa Academaidd) | Medi 2023 a pharhaus | Y meysydd posibl yw Gwaith Cymdeithasol gyda Chyngor Sir Ceredigion, Nyrsio Lefel 4 gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Bydd trafodaethau'n parhau gydag amrywiaeth o bartneriaid posibl eraill wrth i'r Brifysgol wynebu'r newidiadau o ran anghenion a chyfleoedd yn y rhanbarth ac ar draws Cymru. |
| 3. Y perthnasoedd cefnogol a cholegol y mae'r Brifysgol yn eu datblygu gyda'i phartneriaid sy'n eu galluogi i gyfranogi'n gyfartal yn y bartneriaeth | | | | | |
| 3.1 Parhau i nodi a datblygu partneriaethau addas lle credwn y gall | Pwysleisio ansawdd ein partneriaethau presennol yn ein hadroddiadau a'n | | Athro Tim Woods (Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr), Gweithrediaeth y Brifysgol, a'r | Medi 2023 | Bydd y Brifysgol yn parhau i weithio gyda phartneriaid megis Bwrdd Iechyd Hywel Dda |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| perthnasoedd gwaith effeithiol a chynhyrchiol gyflenwi cyfleoedd dysgu newydd | gwybodaeth a chyfeirio partneriaid posibl y dyfodol at hyn | | Swyddfa Partneriaethau (Cofrestrfa Academaidd) | | a Chyngor Sir Ceredigion, ond hefyd â llu o bartneriaid posibl eraill sy'n gysylltiedig â meysydd / disgyblaethau penodol yn y Brifysgol, yn y DU ac yn rhyngwladol. |
| **Ymateb i'r cadarnhad** | | | | | |
| **Nod** | **Gweithredu** | **Nodiadau** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad targed** | **Diweddariad Medi 2023** |
| **4. Y rhaglen waith y mae'r Brifysgol yn ei chyflawni i ddatblygu system ddigidol newydd fydd yn caniatáu gwell trosolwg sefydliadol ar brofiad myfyrwyr ymchwil uwchraddedig** | | | | | |
| 4.1 Symud o brosesu â llaw i ffrydiau gwaith ar-lein ar gyfer pob agwedd ar reoli ymchwil uwchraddedig gan sicrhau defnydd mwy rhwydd i staff a myfyrwyr a throsolwg cliriach gan y brifysgol ar brosesau allweddol | Cyflwyno meddalwedd *Skillsforge* mewn camau yn ystod 2022-23, ac yn benodol ddarparu monitro ac asesu cynnydd yn flynyddol drwy ffrydiau gwaith ar-lein | | Yr Athro Reyer Zwiggelaar (Pennaeth Ysgol y Graddedigion) / Cofrestrydd y Gyfadran (Uwchraddedig) | Gorffennaf 2023 | Mae Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn parhau i weithio gyda Chofrestrydd y Gyfadran (Uwchraddedig) i weithredu'r feddalwedd 'Skillsforge', a brynwyd i wella rheolaeth prosesau a data uwchraddedigion ymchwil, fesul cam, gan ddarparu monitro ac asesu cynnydd blynyddol trwy lifoedd gwaith ar-lein. Cafwyd lansiad meddal gyda nodweddion cyfyngedig ynghylch newidiadau i deitlau traethodau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ymchwil a goruchwylwyr a chyda'r gallu i recordio cyfarfodydd myfyrwyr/goruchwylwyr. Bydd hyn yn cael cyhoeddusrwydd i annog defnydd tra bod camau nesaf y nodweddion yn cael eu datblygu, gan gynnwys estyniadau a monitro. Mae'r prosiect y tu ôl i'r amserlen ond disgwylir i'r monitro fod ar-lein yn gyfan gwbl ar gyfer haf 2024 |
| **5. Y camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau bod manylebau rhaglenni'n cael eu cadw'n gyfredol** | | | | | |
| 5.1 Sicrhau bod yr holl fanylebau rhaglen cyfredol yn gywir gyda dolenni byw | Gwirio'r holl fanylebau presennol i ganfod unrhyw broblemau a'u diweddaru fel bo angen | | Mrs Kim Bradick (Dirprwy Gofrestrydd – Sicrhau a Gwella) / Y Tîm Sicrwydd Ansawdd yn y Gofrestrfa Academaidd | Gorffennaf 2023 | Gwnaed prosiect i ddiweddaru'r holl fanylebau rhaglenni ar gyfer cynlluniau cyfredol. Mae adrannau wedi darparu gwybodaeth i'r Tîm SA canolog – o ddechrau mis Medi mae'r cyfnod cofnodi data bron wedi'i gwblhau |
| 5.2 Sefydlu system newydd o gofnodi manylebau rhaglenni | Y tîm Sicrwydd Ansawdd i weithio gyda'r Gwasanaethau | | Mrs Kim Bradick (Dirprwy Gofrestrydd – Sicrhau a Gwella) / Y Tîm Sicrwydd Ansawdd yn y | Gorffennaf 2023 | Mae BIS wedi gwneud gwaith datblygu ar y cyd â'r Tîm SA a bydd yn symud yn fuan i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| er mwyn hwyluso diweddaru | Gwybodaeth i alluogi gwell cofnodi | | Gofrestrfa Academaidd / Gwasanaethau Gwybodaeth | | ddisodli'r tudalennau gwe cyfredol gyda fersiynau pdf, fel fformat gwydn 'â stamp dyddiad', a fydd yn cynnwys gwybodaeth megis achrediad proffesiynol a phwysoli blwyddyn mewn diwydiant ac elfennau blwyddyn dramor nas cyhoeddwyd o'r blaen. |
| 5.3 Gosod trefniadau ar gyfer diweddaru'r holl fanylebau rhaglen yn flynyddol | Trafod gyda Chyfadrannau y ffordd orau i sicrhau bod unrhyw newidiadau i fanylebau rhaglenni'n cael eu nodi a'u cymhwyso | | Mrs Kim Bradick (Dirprwy Gofrestrydd – Sicrhau a Gwella) / Y Tîm Sicrwydd Ansawdd yn y Gofrestrfa Academaidd / Bwrdd Academaidd | Yn flynyddol o 2023/24 | Gofynnir i adrannau wirio manylebau rhaglenni fel ymarfer blynyddol, felly dylid cael manyleb rhaglen ddiffiniol, yn erbyn pob rhaglen, pob sesiwn academaidd. |
| **Ymateb i'r argymhellion** | | | | | |
| **Nod** | **Gweithredu** | **Nodiadau** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad targed** | **Diweddariad Medi 2023** |
| **6. Sicrhau trosolwg effeithiol gan y Brifysgol ar nifer y staff a'r myfyrwyr sy'n ymwneud â'r system tiwtora personol a'u hymgysylltiad â gofynion y system** | | | | | |
| 6.1 Pennu a oes angen newidiadau i'n hymagwedd bresennol at diwtora personol i wella ymgysylltu â'r broses. | Ailosod ffocws ein Gweithgor ar Diwtora Personol i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2022-23 i ystyried, er enghraifft, y | Bydd safbwyntiau myfyrwyr yn cael eu ceisio drwy drefniadau cynrychioliadol arferol a chaiff myfyrwyr eu | Dr Malte Urban (Cadeirydd y Gweithgor ar Diwtora Personol) / Bwrdd Academaidd | Medi 2023 | Gwnaeth y Gweithgor TP gwrdd yn rheolaidd ac mae dogfen 'Cyfarwyddyd ar Diwtor Personol a Chadw Cofnodion' wedi'i chyhoeddi i helpu TP i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cydbwysedd rhwng cyfarfodydd unigol a grŵp a sut y gallai adrannau addasu fframwaith a gynhyrchir yn ganolog i'w hanghenion eu hunain | hannog i godi materion ynghylch tiwtora yn eu hadrannau / Cyfadrannau | | | gynnig arweiniad da i fyfyrwyr a sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei gynnig i'r rhai a allai fod yn ei chael hi'n anodd. Gwnaeth y Gweithgor argymell llif gwaith syml o weinyddu cyfarfodydd Tiwtoriaid Personol, a nodi gofynion manwl o ran cadw cofnodion. Mae cyfarfodydd Tiwtoriaid Personol nawr yn cynnwys cyfarfodydd grŵp, gyda chyfarfodydd unigol yn cael eu cadw ar gyfer myfyrwyr sy'n gofyn am gyfarfod o'r fath neu mewn achosion pan fo gan adran bryderon. Mae mentrau cyflenwol eraill yn cynnwys penodi Swyddog Cynefino a Chynhwysiant Myfyrwyr ym mis Tachwedd 2023 yn y Gwasanaethau Myfyrwyr, a fydd yn cysylltu'n agos â'r system Tiwtoriaid Personol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.2 Sefydlu trefniadau adrodd i alluogi monitro ymlyniad at y polisi | Datblygu a darparu manyleb i'r Gwasanaethau Gwybodaeth weithio iddi i greu trefn adrodd briodol | Cofnodir y data gofynnol yn *Aladdin* ar hyn o bryd ac felly'r brif dasg yw datblygu adroddiad ac nid cofnodi data ychwanegol | Dr Malte Urban (Cadeirydd y Gweithgor ar Diwtora Personol) / Bwrdd Academaidd / Gwasanaethau Gwybodaeth | Adrodd ar gael erbyn sesiwn 2023-24 | Cedwir cofnodion presenoldeb grŵp ac unigol ar Aladdin. Penderfynodd y Gweithgor fod y fframwaith a'r offer ar gyfer cadw cofnodion yn parhau i fod yn addas i'r diben a'i fod yn gyson â'r defnydd a'r ymgysylltiad sy'n ofynnol. |
| **7. Cyflwyno system sy'n sicrhau trosolwg sefydliadol ar gyfer cymeradwyo arholwyr allanol i ddyfarniadau gradd ymchwil** | | | | | |
| 7.1 Dileu dibyniaeth ar un deiliad swydd drwy sefydlu grŵp bach i gymeradwyo enwebiadau ar gyfer arholwyr ymchwil uwchraddedig allanol | Ysgol y Graddedigion i gynnull grŵp gyda Phennaeth a Dirprwy Bennaeth GS ynghyd â Chofrestrydd y Gyfadran (Uwchraddedig) i greu panel cymeradwyo | Mae Ysgol y Graddedigion ar hyn o bryd yn penodi Dirprwy Bennaeth fydd yn ei swydd ym mis Hydref 2022 | Yr Athro Reyer Zwiggelaar (Pennaeth Ysgol y Graddedigion) / Cofrestrydd y Gyfadran (Uwchraddedig) | Hydref 2022 | Sefydlodd Ysgol y Graddedigion grŵp bach i gymeradwyo enwebiadau Arholwr Allanol Uwchraddedigion Ymchwil, yn cynnwys y Pennaeth, Dirprwy Bennaeth a Chofrestrydd y Gyfadran (Uwchraddedig), gan adrodd i'r PGY ac ymlaen i'r Bwrdd Academaidd, yn unol ag adrodd ar benodiad ac estyniadau pob Arholwr Allanol a addysgir.<br>Newid i'r broses sy'n cael ei hystyried a'i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | chymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd. |
| 7.2 Cofnodi pob penodiad drwy'r system pwyllgorau fel sy'n digwydd gyda dyfarniadau a addysgir | Pob cyfarfod o'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i dderbyn adroddiad ar arholwyr allanol newydd gyda data allweddol a'u hanfon at y Bwrdd Academaidd | Bydd ffocws yr adroddiadau ar gydymffurfio â meini prawf penodi safonol y llawlyfr Ansawdd Academaidd ac unrhyw wyriadau a gymeradwywyd | Yr Athro Reyer Zwiggelaar (Pennaeth Ysgol y Graddedigion) / Cofrestrydd y Gyfadran (Uwchraddedig) / Pwyllgor Graddau Ymchwil / Bwrdd Academaidd | Hydref 2022 | Rhoddir gwybod am benodiadau drwy'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i'r Bwrdd Academaidd. |
| **8. Sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn adborth amserol ar asesiadau yn unol â gofynion y Brifysgol** | | | | | |
| 8.1 Gwell ymwybyddiaeth o'r polisi ymhlith staff a myfyrwyr er mwyn osgoi unrhyw gam-ganfyddiad a gwell dealltwriaeth ymhlith myfyrwyr o'r trefniadau sydd ar gael i adrodd am broblemau | Adrannau i bwysleisio ac egluro'r polisi mewn digwyddiadau cynefino a Phwyllgorau Cyswllt Staff a Myfyrwyr gydag Adborth yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgorau hynny | Mae canlyniadau NSS 2022 yn dangos mai sgôr boddhad cyffredinol PA ar gyfer amseroldeb adborth yw 80%, cynnydd bach ar sgôr 2021 ac yn sylweddol uwch na'r meincnod ar gyfer PA a chyfartaledd y sector. Ystyriwn felly fod hwn yn gwella ar lwyddiant sylweddol ond cydnabyddwn bwysigrwydd adborth cyson, amserol | Penaethiaid Adrannau academaidd / Undeb y Myfyrwyr / Cofrestrfa Academaidd | Medi 2022 | Mae adborth amserol ar asesiadau'n parhau i fod yn uchel ar yr agenda ym mhob adran ac mae'n cael ei ystyried yn benodol gyda grwpiau myfyrwyr yn ystod adolygiadau adrannol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.2 Gwella monitro cydymffurfiaeth â pholisi | Gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth, ymchwilio i ddatrysiadau technegol posibl a thrafod sut i sicrhau samplo cyson ar draws y Cyfadrannau gyda Deoniaid Cyswllt | O ystyried y ddibyniaeth ar feddalwedd allanol a'r data cyfyngedig y credwn y gallem ei echdynnu o Turnitin, nid ydym yn hyderus ynghylch datrysiad technegol ond gallai hyn fod yn bosibl gyda fersiynau newydd o feddalwedd | Ms Emma Williams (Cofrestrydd Cyfadran a chadeirydd Deoniaid Cysylltiol Dysgu ac Addysgu_ – cyfarfodydd cyson gyda'r Gofrestrfa Academaidd / Tîm Ansawdd y Gofrestrfa Academaidd / Bwrdd Academaidd | Medi 2023 | Mae opsiynau technegol posibl i gefnogi monitro cydymffurfiaeth gwell â'r polisi wedi cael eu hystyried. Oherwydd pryderon am gadernid y data, gweithiodd y DCDA â'r UDDA i adolygu adroddiadau sampl a gynhyrchwyd gan BB i helpu i benderfynu pa mor ddefnyddiol y gallent fod. Mae cwestiynau heb eu hateb o hyd ynghylch sut mae'r data'n deillio a daethpwyd i'r casgliad bod adroddiadau o werth cyfyngedig, er y gallent fod o gymorth os oes angen ymchwilio'n agosach i fodiwl neu asesiad penodol. Mae'r grŵp DCDA yn fodlon bod mecanweithiau da eisoes ar waith fel y gall myfyrwyr roi gwybod am bryderon ynghylch amseroedd marcio a therfynau adborth. Bydd yr UDDA yn cynghori'r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | grŵp DCDA o unrhyw ddatblygiadau BB a allai fod ar y gweill. |






**YrAthro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor**

**Ash Sturrock, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (2022)**

Awst 2022